

Yr un y mae Duw yn ei ystyried

“Ond fe edrychaf ar y truan, yr un o ysbryd gostyngedig, ac sy’n parchu fy ngair.” (adn. 2)

Beth am ddarllen Eسعia 66:1–12 ac yna myfyrio

Mae’r bobl hynny sydd yn taflu amheuaeth ac ysbwriel i mewn i’r ffynnon o’r hon mae gwirionedd sanctaidd yr Ysgrythur yn cael ei dynnu, gan wadu ei awdurdod, yn cael eu hwynebu â phroblem: sut mae cyrraedd y gwirionedd? Gwnânt hynny trwy ymchwilio trwy’r Ysgrythur gan ddefnyddio rheswm yn unig. Mae’n rhyfedd fod y bobl hynny sydd yn chwilio am Dduw yn esgeuluso’r unig lyfr sydd yn datguddio Duw ac yn dangos y camau hynny sy’n rhaid i ni eu cymryd i’w ddarganfod. Holl bwrpas y Beibl yw caniatáu i ni wybod yn ein hymchwil am Dduw ei fod ef wedi cymryd y cam cyntaf – ei fod ef wedi dod i mewn i’r byd ym mherson ei Fab i edrych amdanom ni.

Un o’r ffeithiau mwyaf trist yw bod mesur helaeth o’r sbwriel yn y ffynnon yma wedi ei roi yno gan weinidogion a phregethwyr sydd yn eistedd mewn barn ar y Beibl, yn hytrach nag eistedd o dan ei awdurdod yn ostyngedig. Mae’r testun heddiw yn dweud wrthym fod Duw yn cofio’r rhai hynny sy’n parchu ei Air. Mae’r rhai sydd yn amau ac yn gwadu natur awdurdodedig y Beibl yn gwrthod parchu’r Gair; yn hytrach maent yn dymuno ei newid.

Blynyddoedd lawer yn ôl, yr oeddwn yn adnabod gŵr ifanc oedd yn adnabyddus oherwydd ei gariad at yr Ysgrythurau. Fe aeth y gŵr yma i goleg diwinyddol, ac yno fe’i perswadiwyd mai dim ond rhan o’r Beibl sy’n wirionedd, bod yna esboniad naturiol i’r gwrthiau i gyd, ac na chafodd Iesu ei eni o wryf. Gadawodd y coleg hwnnw â’i hyder yn y Beibl wedi ei chwalu, ac, yn wir, fe drodd ei gefn ar y ffydd Gristnogol yn gyfan gwbl. Oes na unrhyw beth yn fwy digalon na gweld dynion a merched ifainc sydd wedi mynd i goleg gyda golwg uchel ar y Gair, yn gadael y coleg hwnnw gyda golwg isel iawn ar y Beibl? Ni wn i am unrhyw beth sy’n fwy trist.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Esra 9:1–4; Salm 119:159–168

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam ddylem barchu Gair Duw?
2. Beth yw’r addewid i’r rhai sy’n caru cyfraith Duw?

Gweddi

O Dad trugarog, rwy’n hiraethu am gael fy mharchu yn dy olwg di. Cynorthwya fi i barchu dy Air, i beidio ymhél â fy amheuon naturiol, ond yn hytrach i ymostwng i’w awdurdod. Yn enw Iesu. Amen.